| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 4/11/2024 | Dim | **Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards (*Teams),* Beryl Hughes Griffiths, Alwyn E Jones (*Teams),* Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, (*Teams),* Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts<br>Hefyd yn bresennolBethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br>**Ymddiheuriadau:** Llinos Edwards:<br>Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) ar y ffôn<br>**Cyhoedd:** neb yn bresennol. | Llongyfarchwyd Huw Antur ar gael ei ddewis i swydd y Clerc/Sac, a diolchwyd iddo am gymryd at y gwaith.<br><br>Mynwentydd: Mae'r gwaith o lefelu a hadu wedi ei gwblhau, ynghyd a'r gwaith ar ymyl y llwybrau a'r gwrych.<br><br>Cytunwyd i'r taliadau a ganlyn: Cyflog Clerc, CThEF, Cytundeb Glanhau, nwyddau glanhau (£54.07) ac aelodaeth ico (£35) .<br><br>**Cyngor Cymuned Llanystumdwy:** cefnogwyd cais i gefnogi Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg . Gohebiaeth parthed Achub Plas Tanybwlch: cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor.<br><br>Cadarnhawyd Alwyn M Roberts fel cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol OM Edwards am y flwyddyn nesaf.<br><br>Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 3/12/24; lleoliad i'w drefnu |